

CANLLAW CHUCK-A-PUCK CROESO CAERDYDD I...

TECHNIQUEST



GWYDDONIAETH I BAWB, O BLANT BACH I NEINIAU A THEIDIAU.

Mae llawer o resymau dros ymweld â Techniquest, y ganolfan gwyddoniaeth ryngweithiol ymarferol yng nghanol Bae Caerdydd, gyda dau lawr o arddangosiadau difyr lle gallwch lansio roced, boddi rig olew, symud hanner tunnell o wenithfaen ac edrych ar y sêr!

Ar y penwythnosau ac yn ystod y gwyliau ysgol, gallwch fwynhau sioeau ysblennydd i'r teulu cyfan gan y Theatr Wyddoniaeth a mynd ar siwrne trwy ofod i weld y galaethau pell a'r sêr mewn sioeau arbennig dan arweiniad cyflwynydd yn y Planetariwm 360°.

Mae rhywbeth i ddifyrru pawb am gwpl o oriau neu fwy, ac mae posau, llyfrau, pecynnau gwyddoniaeth a llawer mwy yn siop Techniquest - y siop anrhegion fwyaf y Bae. Pan fyddwch yn barod am egwyl, ewch i'r siop goffi lle mae amrywiaeth o ddiodydd, brechdanau a byrbrydau wedi'u gwneud â chynnyrch lleol.

Ar ôl i chi gael eich band arddwrn Techniquest, gallwch fynd a dod fel y mynnwch drwy'r dydd, felly gallwch fynd am dro o amgylch y Bae a gwneud diwrnod ohoni!

Mae Techniquest yn croesawu ymwelwyr cyhoeddus gydol y flwyddyn ac mae ar agor ar y penwythnos, ar Wyliau Banc a thrwy'r wythnos yn ystod y gwyliau ysgol (rhwng 10am a 5pm). Yn ystod y tymor ysgol mae Techniquest ar gau ar ddydd Llun a'r oriau agor o ddydd Mawrth i ddydd Gwener yw 9:30am - 4:30pm.

COFIWCH BRYNU EICH PYC I GYMRYD RHAN YN Y GYSTADLEUAETH HWYL AR NOSON Y GÊM!

TECHNIQUEST

Dysgwch fwy yn croesocaerdydd.com

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol!
#CroesoCaerdydd

